# Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Gwaith craffu ar ôl deddfu*

Mae ymateb manwl i bob un o'r argymhellion i'w weld isod.

Fel y gofynnwyd, byddaf yn rhoi diweddariad ysgrifenedig i'r pwyllgor erbyn 17 Hydref ynghylch yr argymhellion a nodwyd isod.

| **Argymhelliad** | **Derbyn / Derbyn mewn egwyddor / Gwrthod** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|
| ***Argymhelliad 1.*** *Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu eglurder ynghylch goblygiadau diffyg cydymffurfio ag adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf ac ystyried cynnwys darpariaeth ar gyfer hyn yn Nhrefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.* | **Derbyn** | Rwy'n hapus i egluro'n ysgrifenedig yn yr ymateb hwn i'r pwyllgor yr hyn y cyffyrddwyd ag ef mewn tystiolaeth y llynedd.<br><br>Mae canllawiau gweithredol Deddf 2016 yn glir ynghylch y pwynt hwn:<br><br>*"Yr ymddiriedolaeth /bwrdd iechyd ar lefel weithredol sy'n atebol am gydymffurfio â'r Ddeddf. Bydd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu hystyried o dan y Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd sydd wedi bod ar waith ers 2014. O dan y trefniadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod sefyllfa gyffredinol pob ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd. Mae amrywiaeth eang o wybodaeth yn cael ei hystyried er mwyn rhoi cyngor ar y statws uwchgyfeirio, ar unrhyw broblemau ac i sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn effeithiol. Byddai diffyg cydymffurfio â darn o ddeddfwriaeth fel y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn cael ei ystyried o dan y trefniadau hyn."*<br><br>Yn ystod gwrandawiadau'r pwyllgor, ni nododd yr un o'r tystion y mae dyletswyddau Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn gymwys iddynt unrhyw ddiffyg eglurder ynghylch goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | O ystyried eu cyfrifoldebau gweithredol yn eu priod sefydliadau, mae Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio yn gyfarwydd iawn â'r prosesau uwchgyfeirio hyn. Maent hefyd yn gyfarwydd â sut y byddai'r prosesau hyn yn mynd rhagddynt yng nghyd-destun diffyg cydymffurfio â Deddf 2016, oherwydd – fel y soniais yn fy nhystiolaeth ar 6 Rhagfyr – maent wedi'u gweld yn cael eu cymhwyso mewn ymarfer. Nodwyd bod diffyg cydymffurfiaeth â Deddf 2016 yn un o'r rhesymau pam y rhoddwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn statws ymyrraeth wedi'i thargedu yn 2019.<br><br>Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio y GIG ym mis Ionawr 2024. Mae'n disgrifio'n fanylach y broses ar gyfer uwchgyfeirio, isgyfeirio, ac ymyrryd, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'n profiadau gyda byrddau iechyd prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Betsi Cadwaladr.<br><br>Mae'r ddogfen hon – ar y cyd â chanllawiau gweithredol Deddf 2016 – yn cynnwys yr holl eglurder sydd ei angen er mwyn i ymddiriedolaethau/byrddau iechyd ddeall goblygiadau peidio â chydymffurfio â Deddf 2016. |
| ***Argymhelliad 2.***<br>*Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atom o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn i roi diweddariad am y cynnydd a wneir gan y byrddau iechyd o ran arddangos gwybodaeth mewn modd cyson am lefelau staff nyrsio ar wardiau lle mae adran 25B yn berthnasol.* | **Derbyn** | Mae'r Prif Swyddog Nyrsio wedi codi'r mater hwn gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio. Mae is-grŵp adrodd o Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan eisoes yn gweithio drwy fanylion y camau angenrheidiol i sicrhau bod gwybodaeth am lefelau staff nyrsio yn cael ei harddangos mewn modd cyson ar draws Cymru gyfan unwaith eto.<br><br>Byddaf yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch ein cynnydd ar y camau hyn yn fy niweddariad chwe mis dilynol. |
| ***Argymhelliad 3.***<br>*Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau* | **Derbyn** | Mae datblygu canllawiau gweithredol sydd yn nodi'r defnydd cyson o ddull cyfrifo wedi'i driongli yn yr ardaloedd y mae adran 25A yn berthnasol iddynt bellach yn rhan ganolog o'r rhaglen waith wedi'i diweddaru ar gyfer Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan. |

| | | |
|---|---|---|
| *Cymdeithasol gyflwyno canllawiau gweithredol clir i gefnogi'r gwaith o gymhwyso adran 25A mewn modd cyson ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i ni ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ar ddatblygu'r canllawiau hyn o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.* | | Mae cryn waith i'w gwblhau eto er mwyn darparu sylfaen ar gyfer y canllawiau hyn. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwnnw eisoes ar y gweill, a byddaf yn cynnwys manylion ynghylch cynnydd y rhaglen yn fy niweddariad chwe mis dilynol. |
| ***Argymhelliad 4.*** *Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu ymarfer mapio ar gyfer y systemau digidol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion y Ddeddf er mwyn galluogi gwerthusiad gonest o'r gwaith y mae angen ei wneud o hyd i wella effeithlonrwydd a chysylltedd y systemau hynny, a'r amserlenni ar gyfer hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried rôl technoleg ddigidol wrth alluogi nyrsys i ddarparu gwell gofal i gleifion.* | **Derbyn** | Fel yn achos yr argymhelliad uchod, mae'r gwaith hwn wedi'i adlewyrchu yn barod yn rhaglen waith wedi'i diweddaru Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan. Mae tîm y rhaglen wedi wynebu materion wrth recriwtio arbenigedd digidol yn y gorffennol, ac rwy'n ymwybodol bod rheolwr y rhaglen yn ystyried atebion posibl ar gyfer cyflogi cymorth yn y tymor byr er mwyn gwneud cynnydd cyflym yn erbyn elfennau digidol y rhaglen waith.<br><br>Byddaf yn cynnwys manylion ynghylch y cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn yn fy niweddariad chwe mis. |

| | | |
|---|---|---|
| ***Argymhelliad 5.***<br>*Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymo i gynnal adolygiad llawn ac academaidd o'r Ddeddf cyn gynted ag y bydd y data i gefnogi'r gwaith hwn ar gael.* | **Derbyn mewn egwyddor** | Rwy'n cefnogi'r egwyddor o werthuso yn annibynnol y ddeddfwriaeth a gaiff ei phasio gan y Senedd. Fodd bynnag, fel yr eglurodd y Prif Swyddog Nyrsio wrth y pwyllgor ym mis Rhagfyr, mae'n anodd dadlau dros gomisiynu gwaith gwerthuso o'r fath ar hyn o bryd gan gadw mewn cof mai tameidiog yw gweithrediad Deddf 2016, yn rhannol oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig, a'r materion digidol sydd wedi llesteirio'r trefniadau casglu data hyd yma.<br><br>Unwaith yn unig y comisiynir gwerthusiad o'r fath fel arfer – felly dylid gwneud hyn pan fydd gennym y data cadarn sydd eu hangen i fod yn sylfaen ar gyfer gwerthusiad sy'n academaidd drwyadl. Ym mis Ebrill 2024, nodwyd dechrau'r trydydd cyfnod adrodd tair blynedd – y cyntaf ers i'r modiwl rheoli wardiau Safecare gael ei gyflwyno i bob sefyllfa y mae adran 25B yn berthnasol iddi. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn arwain at gasglu a dadansoddi data mwy cadarn. Byddai diwedd y cyfnod adrodd hwn yn cynnig cyfle i ymgymryd â gwerthusiad annibynnol o Ddeddf 2016.<br><br>Rwyf wedi gofyn bod Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan yn cynnwys cam gweithredu yn ei rhaglen waith i adolygu'r sefyllfa o bryd i'w gilydd gan roi diweddariad i'r Prif Swyddog Nyrsio. |
| ***Argymhelliad 6.***<br>*Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu gwaith ymchwil i'r defnydd hyd yma o offeryn cynllunio gweithlu Lefelau Gofal Cymru, gan gynnwys ystyried sut y mae Cymru'n cymharu â gwledydd eraill y DU o ran gwella lefelau staff nyrsio a diogelwch cleifion.* | **Derbyn mewn egwyddor** | Byddai ymchwil ar weithredu offerynnau Lefelau Gofal Cymru hyd yma yn ffurfio elfen sylweddol o'r gwerthusiad deddfwriaethol a ddisgrifir yn argymhelliad pump ac ni fyddai'n cael ei gomisiynu fel darn o waith ar wahân. O ganlyniad, byddai'r un rhwystrau a ddisgrifir uchod hefyd yn berthnasol i gomisiynu'r math hwn o ymchwil ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| ***Argymhelliad 7.*** *Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi diweddariad ysgrifenedig, o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, ar lwyddiant y camau gweithredu i wella'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw nyrsys a sicrhau cyflenwad cynaliadwy o nyrsys, gan gynnwys cyfeiriad at recriwtio rhyngwladol a'r defnydd o staff asiantaeth.* | **Derbyn** | Byddaf yn cynnwys manylion ynghylch ein cynnydd yn y meysydd hyn yn fy niweddariad chwe mis. |
| ***Argymhelliad 8.*** *Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:*<br>▪ *gadarnhau y caiff y gwaith o gyflwyno rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig ei ariannu'n llawn, a nodi o ble y daw'r cyllid hwnnw;*<br><br>▪ *rhoi sicrwydd y bydd rôl cydymaith nyrsio cofrestredig yn ychwanegol at y gweithlu presennol ac nid yn lle nyrsys cofrestredig; a* | **Derbyn** | Os caiff rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig ei chyflwyno yng Nghymru, hon fydd yr unig rôl band 4 yn ein gweithlu nyrsio yn dilyn cyfnod pontio. Felly, byddai'r cyllid a ddyrennir ar hyn o bryd i addysg a hyfforddiant staff band 4 yn cael ei ailddyrannu i addysg a hyfforddiant cymdeithion nyrsio cofrestredig.<br><br>Megis dechrau y mae cam 2 gwaith y prosiect band 4, a dros y misoedd nesaf bydd is-grwpiau ei fwrdd rhaglen yn arwain ar nodi manylion ac amserlen bosibl y trosglwyddiad cyllid hwnnw. Mae'r pedair ffrwd waith fel a ganlyn: y gweithlu, deddfwriaeth, paramedrau ymarfer ac addysg. Caiff ystyriaethau ariannol mewn perthynas â'r meysydd penodol hynny eu gwneud fel rhan o'r pedair ffrwd waith hon. Byddaf yn cynnwys manylion y gwaith hwn yn fy niweddariad chwe mis.<br><br>Mae'r Prif Swyddog Nyrsio a minnau yn glir iawn ar y pwynt o gymryd lle rôl y nyrs gofrestredig. Ymhen amser, bydd y rôl band 4 gofrestredig yn cymryd lle rôl y gweithiwr cymorth gofal iechyd band 4 presennol, ac <u>nid</u> nyrsys cofrestredig. Mae nyrsys cofrestredig yn nodwedd bwysig o'r gweithlu na ellir cymryd eu lle, a byddant yn cael eu cefnogi yn fwy effeithiol gan gydweithwyr band 4 cofrestredig sydd â lefel uwch o addysg |

| | | |
|---|---|---|
| *nodi i ba raddau y mae'r Ddeddf yn lliniaru'r risg o hynny;*<br><br>▪ *nodi sut y bydd gofynion y Ddeddf yn gymwys i rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig; a*<br><br>▪ *darparu manylion am unrhyw asesiad o’r risg i ddiogelwch cleifion sydd wedi’i wneud neu a fydd yn cael ei wneud ym mhob maes lle y bydd cydymaith nyrsio cofrestredig yn cael ei gyflogi.* | | na’r gweithwyr cymorth gofal iechyd band 4 presennol. Bydd paramedrau ymarfer clir diamwys yn cael eu datblygu sy’n gwahaniaethu rhwng cydymaith nyrsio cofrestredig a nyrs gofrestredig fel prif ddull lliniaru rhag cymryd lle nyrsys cofrestredig. Bydd y ddogfen hon yn cael ei datblygu gan yr is-grŵp paramedrau ymarfer, a chynhelir ymgynghoriad llawn ar y ddogfen.<br><br>Ceir dulliau lliniaru ychwanegol hefyd. Mae canllawiau statudol Deddf 2016 yn nodi: “Lefel y staff nyrsio yw nifer y nyrsys sy’n briodol i roi gofal i gleifion sy’n bodloni pob gofyniad rhesymol yn y sefyllfa berthnasol. Mae nifer y nyrsys yn golygu nifer y nyrsys cofrestredig (sef y rhai sydd â chofrestriad gweithredol o dan is-adran 1 neu 2 ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth).”<br><br>Ni fyddai’r cydymaith nyrsio cofrestredig ar y rhannau hynny o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth felly ni fydd unrhyw ffiniau aneglur yng nghyd-destun Deddf 2016.<br><br>Byddai gofynion Deddf 2016 yn gymwys i’r cydymaith nyrsio cofrestredig yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys ar hyn o bryd i’r gweithiwr cymorth gofal iechyd. Mae’r canllawiau statudol yn datgan: “Wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio, gellir ystyried dyletswyddau nyrsio yr ymgymerir â nhw o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig neu ddyletswyddau nyrsio sy’n cael eu dirprwyo i berson arall gan nyrs gofrestredig.”<br><br>Mae “person arall” yn cynnwys rôl bresennol y gweithiwr cymorth gofal iechyd, a byddai’n cynnwys rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig pe bai’n cael ei chyflwyno. Bydd Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan, fel mater o drefn, yn adolygu’r holl dempledi a chanllawiau ac yn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i gynnwys cyfeiriadau penodol at y rôl newydd.<br><br>Nid oes rheswm dros holi cwestiynau ynglŷn â diogelwch cleifion mewn perthynas â chyflwyno rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig. Fel y crybwyllwyd uchod, rôl newydd fyddai’r cydymaith nyrsio cofrestredig i gymryd lle rôl y gweithiwr cymorth gofal iechyd band 4 nad yw’n cael ei rheoleiddio ar hyn o bryd.<br><br>Fel rhan o’r gwaith prosiect a lywiodd fy mhenderfyniad i fynd ar drywydd cyflwyno’r cydymaith nyrsio cofrestredig yng Nghymru, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o’r |

| | | |
|---|---|---|
| | | llenyddiaeth a’r farn glinigol, academaidd, broffesiynol a barn yr undebau llafur. Asesiad risg i bob pwrpas oedd rhan o’r gwaith hwnnw, a oedd yn asesu’r risg i ddiogelwch cleifion o dan y model *presennol* o weithwyr cymorth gofal iechyd band 4 nad ydynt wedi’u cofrestru nac yn cael eu rheoleiddio. Canlyniad yr ymchwiliad hwnnw oedd bod rheoleiddio yn lleihau risgiau, yn cynyddu diogelwch cleifion ac yn magu hyder y cyhoedd oherwydd y safonau cyson o ran ymarfer ac addysg, o ganlyniad i reoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.<br><br>Yn ôl y llenyddiaeth (ac fel y pwysleisiwyd droeon gan academyddion yng Nghymru), diffyg rheoleiddio yw’r hyn sy’n peri risg i ddiogelwch cleifion ar hyn o bryd, yn enwedig o ganlyniad i gwmpas ymarfer estynedig gweithwyr band 4.<br><br>Mae platfform 5 yn Safonau Hyfedredd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig yn cynnwys gwella diogelwch ac ansawdd gofal. Nid yw'r safonau hyn yn bodoli ar gyfer y rôl band 4 bresennol nad yw’n cael ei rheoleiddio yng Nghymru. Mae Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy’n cynnwys gofyniad i ymarfer yn effeithiol a chynnal diogelwch cleifion, hefyd yn berthnasol i rôl y cydymaith nyrsio cofrestredig. Fel yn achos nyrsys cofrestredig, mae’n ofynnol i gymdeithion nyrsio cofrestredig gael eu hailddilysu ar sail gylchol, a rhaid iddynt ailddangos tystiolaeth o gymhwysedd yn rheolaidd. |
| ***Argymhelliad 9.***<br>*Dylai’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwn o fewn 9 mis i gyhoeddi’r adroddiad hwn ar y defnydd o’r Offerynnau Lefelau Gofal Cymru drafft ar gyfer iechyd meddwl ac ymweliadau iechyd gan fyrddau iechyd, gan ddarparu* | **Derbyn** | Fel y mynegwyd wrth i'r pwyllgor gasglu tystiolaeth, mae rhai rhwystrau amlwg rhag safoni’r defnydd o offerynnau iechyd meddwl ac ymwelwyr iechyd Lefelau Cymorth Cymru ar hyn o bryd – sef y diffyg platfformau digidol er mwyn gallu casglu data.<br><br>Fel rhan o raglen waith wedi’i diweddaru Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, mae rheolwr y rhaglen yn bwriadu cynnal archwiliad i feithrin dealltwriaeth o sut y mae’r offerynnau drafft yn cael eu defnyddio ac i ddeall unrhyw rwystrau yn well. Bydd y canlyniadau yn hanfodol ar gyfer llywio gwaith ehangach y rhaglen o ran safoni cyfrifiadau staff wedi’u triongli yn yr ardaloedd y mae adran 25A yn berthnasol iddynt.<br><br>Byddaf yn cynnwys manylion yn fy niweddariad chwe mis dilynol. |

| | | |
|---|---|---|
| *gwerthusiad o sut y maent yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu cynaliadwy a gwell gofal i gleifion yn y maes hwn.* | | |
| ***Argymhelliad 10.*** *Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddefnyddio Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan i gomisiynu ymarfer mapio o'r adnoddau eraill sydd ar gael ar gyfer cynllunio'r gweithlu, ac i ddatblygu'r egwyddorion a'r canllawiau i sicrhau dull gweithredu cyson wrth eu cymhwyso ledled Cymru.* | **Derbyn** | Mae'r gwaith hwn wedi'i adlewyrchu yn barod yn rhaglen waith wedi'i diweddaru Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan. Bydd y gwaith cwmpasu hwn yn gam cyntaf tuag at ddatblygu canllawiau gweithredol ar gyfer sicrhau dull unwaith i Gymru o gymhwyso dull cyfrifo wedi'i driongli yn gyson ym mhob ardal y mae adran 25A yn berthnasol iddi, fel y'u crybwyllir yn argymhelliad tri. |
| ***Argymhelliad 11.*** *Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol rannu gyda'r Pwyllgor ganfyddiadau asesiad Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan o effaith y Ddeddf ar waith aml-broffesiwn.* | **Derbyn** | Pan fydd Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan wedi cwblhau ei waith i asesu'r berthynas rhwng Deddf 2016 a gweithio amlbroffesiwn, byddaf yn rhannu ei ganfyddiadau/argymhellion â'r pwyllgor. |